O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 11 (Cy. 4)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffyrdd yr A48 a'r A40 (Sanclêr i Cross Hands, Sir Gaerfyrddin) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2012

Gwnaed	*3 Ionawr 2012*
Yn dod i rym	*9 Ionawr 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffyrdd Llundain - Abergwaun (yr A48 a'r A40) (y cyfeirir atynt yma wedi hyn fel "y cefnffyrdd"), wedi'u bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd, neu gyfyngu arno, oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall, **(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 9 Ionawr 2012. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A48 a'r A40 (Sanclêr i Cross Hands, Sir Gaerfyrddin) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2012.

2. —1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 18:00 o'r gloch ar 9 Ionawr 2012 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r cefnffyrdd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau hynny o'r cefnffyrdd yn Sir Gaerfyrddin a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.